

# Pam defnyddio'r Gymraeg yn Sir Gâr?

## Sefyllfa'r Gymraeg:

- Mae 78,048 o siaradwyr Cymraeg yn ôl cyfrifiad 2011. Yn Sir Gaerfyrddin y mae'r nifer mwyaf o siaradwyr Cymraeg o holl awdurdodau unedol Cymru,
- Mae 43.9% o drigolion Sir Gâr yn gallu siarad Cymraeg,
- Mae 56% o blant Sir Gaerfyrddin yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg,
- Mae gan Sir Gâr ased unigryw yn ei phoblogaeth ddwyieithog a chyfraniad sylweddol i'w wneud wrth greu Cymru gwirioneddol ddwyieithog.

## Hunaniaeth a hyder defnyddwyr:

- Mae'r iaith Gymraeg yn allwedd i hunaniaeth a diwylliant nifer o'n poblogaeth,
- Gall defnyddwyr fynegi eu barn a'u hanghenion yn well yn eu hiaith gyntaf,
- Mae yna garfanau o siaradwyr Cymraeg sydd wirioneddol angen cael gwasanaeth yn eu hiaith gyntaf er mwyn cael eu trin yn effeithiol,
- Mae'n ddyletswydd arnon ni i hwyluso dewis iaith i'n defnyddwyr,
- Yn ôl arolwg, mae 66% yn meddwl y dylid gwneud mwy i hyrwyddo'r Gymraeg – nid dim ond siaradwyr Cymraeg sy'n meddwl hynny.

## Manteision dwyieithrwydd:

- Mae ymchwil yn yr Unol Daleithiau, Canada, Gwlad y Basg, Catalwnia a Chymru yn dangos bod plant sy'n siarad dwy iaith yn rhugl yn cael canlyniadau da mewn arholiadau,
- Mae dwyieithrwydd yn ei gwneud hi'n haws i ddysgu ieithoedd eraill,
- Mae mwy a mwy o gyflogwyr yn y sir, a thrwy Gymru gyfan, yn chwilio am weithwyr sy'n gallu gweithio'n gyfforddus yn y ddwy iaith,
- Mae gwaith ymchwil yng Nghymru a Chatalonia yn dangos bod y tebygolrwydd o gael eich cyflogi yn cynyddu rhwng 3 a 5 y cant os ydych yn gallu darllen ac ysgrifennu mewn dwy iaith,
- Mae'r Gymraeg yn cynnig cyfleoedd i gyfrannu mewn modd unigryw a chreadigol i'r teulu, y gymuned a'r gweithle.

## Pam bod angen hybu'r Gymraeg?

- Mae'r iaith Gymraeg yn rhan annatod o'n hunaniaeth a'n diwylliant cenedlaethol. Rhaid i ni barchu'r etifeddiaeth honno a gweithio i sicrhau nad yw'n cael ei cholli ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol,
- Collwyd 6,148 o siaradwyr Cymraeg mewn degawd, sef lleihad o 6.4%, ac am y tro cyntaf yn ein hanes mae canran siaradwyr Cymraeg Sir Gâr wedi cwmpo dan yr hanner (43.9%). Dyma'r gostyngiad mwyaf a welwyd yn unrhyw ran o Gymru,
- Mae angen i'r Gymraeg barhau gydag egni i'r dyfodol, i sicrhau ein bod yn elwa o greadigrwydd dwyieithrwydd ein gwlad,

## Y Safonau:

- Mae Safonau'r iaith Gymraeg yn gofyn i ni 'sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg', ac yn nodi'n benodol y 'Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny'.

## Gwybodaeth bellach:

Am y Gymraeg yn Sir Gâr, ewch i [www.sirgar.llyw.cymru/trafodiaith](http://www.sirgar.llyw.cymru/trafodiaith)

Am y Safonau, ewch at [www.comisiynyddygyymraeg.cymru/Pages/Croeso.aspx](http://www.comisiynyddygyymraeg.cymru/Pages/Croeso.aspx)

I gysylltu â'r cyngor - [iaithgymraeg@sirgar.gov.uk](mailto:iaithgymraeg@sirgar.gov.uk)